# DEDDF CYMWYSTERAU CYMRU 2015

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 4: Cymwysterau Blaenoriaethol a Chymeradwyo Cymwysterau

#### *Adran 23: Cyfnod para'r gymeradwyaeth*

55. Rhaid i gymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig gael eu cymeradwyo am gyfnod cyfyngedig fel y caniateir i gyrff dyfarnu eraill gystadlu i fod yn ddarparwr cymhwyster cyfyngedig ar gyfer pob cyfnod cyfyngedig.

56. Caniateir i gymwysterau blaenoriaethol anghyfyngedig a chymwysterau nad ydynt yn gymwysterau blaenoriaethol gael eu cymeradwyo am gyfnod amhenodol neu am gyfnod cyfyngedig. Pan fo cymeradwyaeth yn cael ei rhoi am gyfnod cyfyngedig, rhaid gwneud hyn yn glir pan fydd y gymeradwyaeth yn cael ei rhoi – a phan ddigwydd hyn, mae'r gymeradwyaeth yn peidio â bod ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. I gael manylion am y modd y caniateir i gymeradwyaeth gael ei thynnu'n ôl neu ei hildio, gweler y nodiadau ar gyfer adrannau 25 i 28. Rhagwelir ei bod yn debygol y bydd Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi, ar ei gronfa ddata ar-lein, fanylion am yr holl gymwysterau a gymeradwywyd a'r manylion ynghylch pa bryd y mae pob cymeradwyaeth yn cael effaith.